YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:
37/2016
DYDDIAD CYHOEDDI:
05/04/2016

# GWERTHUSIAD O WASANAETHAU DYSGU A GWASANAETHAU ADDYSG TUC CYMRU 2010-2013

Crynodeb Gweithredol

## 1. Nodau ac Amcanion yr Ymchwil

1.1 Dyfarnwyd y contract i gynnal gwerthusiad annibynnol o Gynllun Busnes Gwasanaethau Dysgu a Gwasanaethau Addysg TUC Cymru 2010-2013 i ERS. Nod cyffredinol y gwerthusiad yw adolygu'r broses ac adolygu effaith y gwaith a gyflawnir gan TUC Cymru gyda'r cyllid a roddir iddynt gan Lywodraeth Cymru ac asesu effeithiolrwydd TUC Cymru o ran cyflawni eu hamcan o ymgysylltu â chyflogwyr a chyflogeion a'u cynnwys mewn gweithgarwch dysgu.

## 2. Methodoleg

2.1 Roedd nifer o gamau i'n gwerthusiad:

- Adolygiad manwl o ddogfennaeth strategol a gweithredol;
- Dadansoddiad o ddata'r rhaglen;
- Ymgynghoriad sylfaenol â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys 19 o gyflogwyr, 3 o swyddogion Llywodraeth Cymru, 14 o staff TUC Cymru, a 32 o staff undebau;
- Arolwg ar-lein o gynrychiolwyr undebau yn y gweithle (479 o ymatebion).

## 3. Prif Ganlyniadau

3.1 Cyfrannodd TUC Cymru, drwy'r model dysgu dan arweiniad yr undeb, at ddysgu oedolion yng Nghymru. Drwy uwchsgilio a chefnogi undebau gyda rhaglenni WULF, a hebddynt, cyfrannodd TUC Cymru tuag at wneud dysgu'n rhan ganolog o weithgareddau undebau llafur yng Nghymru.

3.2 Roedd y cyfnod 2010-13 yn un anodd i gyflogwyr, cyflogeion ac undebau. Collwyd cryn dipyn o swyddi yn sgil y dirwasgiad. Fodd bynnag, roedd TUC Cymru yn graig o fath mewn amgylchedd newidiol. Mae undebau'n deall yr hyn y mae TUC Cymru yn ei gynnig ac roedden nhw'n gwerthfawrogi lle y gallai fod yn werthfawr i'w haelodau o ran manteision cael cynrychiolwyr undebau hyfforddedig yn y gweithle.

3.3 Yn gyffredinol, ar sail ymchwil a wnaed a'r dystiolaeth sydd ar gael, mae'r buddsoddiad yn nysgu cynrychiolwyr undebau yn y gweithle wedi bod yn fanteisiol iawn i weithleoedd, ac yn enwedig i'r cyflogeion a gefnogwyd.

3.4 Pennodd yr ymchwil bod bron 7 o bob 10 o gynrychiolwyr yn credu bod yr hyfforddiant a'r cymorth y bu iddynt eu derbyn yn ystod 2010-13 wedi gwneud cyfraniad sylweddol o ran eu gallu i gyflawni eu rôl. Atgyfnerthir y farn hon gan sylwadau ehangach gan gynrychiolwyr drwy'r arolwg ar-lein a chan randdeiliaid ehangach hefyd.

3.5 Bu i'r gwerthusiad ganfod bod contract Sgiliau Sylfaenol Llywodraeth Cymru ar ôl 2010 yn cael ei ystyried yn llawer mwy effeithiol na'r contract blaenorol. Roedd Gwasanaethau Dysgu TUC Cymru yn ymwybodol o werth y cynnyrch i gyflogeion a chyflogwyr ac roedden nhw mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y rhaglen fel ffordd o ymgysylltu â chyflogwyr a chyflogeion.

3.6 Mae'r dystiolaeth yn dangos bod rôl Cynrychiolydd Dysgu'r Undebau wedi cael effaith sylweddol ar gyflogeion drwy wella lefelau cymhelliant, morâl a datblygiad personol.

3.7 Dywedodd 43 y cant o Gynrychiolwyr Dysgu'r Undebau nad oedd ganddynt amser digonol i gyflawni'r rôl. Yn aml, mae Cynrychiolwyr Dysgu'r Undebau wedi'u hyfforddi i gyflawni'r rôl, ond fe'u cyfyngir o ran sut y cânt gyflawni'r rôl gan eu cyflogwr.

3.8 Mae cefnogaeth gref a chryn werthfawrogiad o rôl TUC Cymru yn y gwaith o gefnogi prosiectau WULF a Rheolwyr Prosiect WULF. Roedd ymateb y rhan fwyaf o undebau a gyfwelwyd i'r cymorth sydd ar gael yn gyffredinol gadarnhaol. Roedd TUC Cymru'n cynnig capasiti (hynny yw, i i gefnogi undebau i wneud mwy o ran cyflawni prosiect WULF) ac arbenigedd (hynny yw, cyngor ac arweiniad sy'n arwain yn uniongyrchol at well canlyniadau).

## 4. Argymhellion

4.1 Gwnaed nifer o argymhellion yn sgil y gwerthusiad. Yn gryno:

- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gydnabod TUC Cymru fel y sefydliad i gyflawni contractau sengl tebyg yn y dyfodol.
- Dylid rhoi ystyriaeth i'r canlynol:
  - Comisiynu un rhaglen gynhwysfawr o weithgarwch yn hytrach na gwasanaethau ar wahân

- Cynnwys cyflawni rhaglen sgiliau hanfodol mewn contractau ehangach sydd i gael eu cyflawni gan TUC Cymru.
- Gofynion cymorth a chefnogaeth prosiectau WULF yn y dyfodol sydd i'w cyflawni gan TUC Cymru.
- Parhau'r adnoddau ar gyfer ehangu rhwydweithiau cefnogi ar gyfer Cynrychiolwyr Dysgu'r Undebau hyfforddedig.
- Adolygu sut y gellid sicrhau rhwydweithiau cefnogi ehangach i Gynrychiolwyr Gwyrdd a Chydraddoldeb, a rhoi adnoddau ar eu cyfer
- Y materion sy'n gysylltiedig ag amser - rhaid ystyried hyn cyn comisiynu rhaglenni dysgu undebau yn y dyfodol er mwyn sicrhau gwerth da am arian.

- Dylai Llywodraeth Cymru a TUC Cymru ystyried datblygu fframwaith monitro a gwerthuso priodol a sicrhau'r adnoddau angenrheidiol i'w weithredu. Mae angen i'r adnoddau hynny fod yn gymesur â graddfa a risg y rhaglen.

- Dylai TUC Cymru adolygu data'r arolwg ar-lein i ystyried lle y gellid gwneud gwelliannau penodol. Gellid defnyddio data'r arolwg fel rhyw fath o feincnod ar gyfer mesur perfformiad yn y dyfodol.

ERS
Research & Consultancy

Awduron yr Adroddiad: Chris Barlow

Adroddiad ymchwil llawn:
http://llyw.cymru/statistics-and-research/evaluation-wales-tuc-learning-education-services/?lang=cy

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Joanne Corke
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 020 2080 1138
E-bost: Joanne.corke@cymru.gsi.gov.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 ISBN digidol 978 1 4734 6331-8